# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

**4YDD MAI 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd),

**Y Cynghorwyr:** T.J. Jones a J.G. Prosser,

**Hefyd yn Bresennol:**
Cynghorydd D. Thomas.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democratiadd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 10:55am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 14 MAWRTH 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018, gan eu bod yn gywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

5. **ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST FEL YR OEDD AR 28 CHWEFROR 2018**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 28 Chwefror 2018 a oedd yn nodi'r risg o ran buddsoddi, dadansoddiad o'r perfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 28 Chwefror 2018.**

6. **ADRODDIADAU IS-GRONFA ECWITI BYD-EANG**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith fod wynebddalen Saesneg yr adroddiad ar gyfer yr eitem hon yn gopi o Eitem 5 ar yr Agenda. Cafodd y Pwyllgor yr wynebddalen gywir ar gyfer Eitem 6 ar yr Agenda, a oedd yn cynnwys yr argymhellion/penderfyniadau allweddol yr oedd angen eu gwneud.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau'r Is-gronfa Ecwiti Byd-eang a oedd yn rhoi manylion llawn am y cyfle buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed, gan gynnwys:-

- Yr elw disgwyliedig ar y buddsoddiadau;
- Y buddsoddiadau arfaethedig i'w defnyddio;
- Dyraniad arfaethedig yr is-gronfa i reolwyr;
- Ffioedd rheoli buddsoddiadau a dargedwyd;
- Y costau trosiannol disgwyliedig;
- Y buddsoddiad posibl a oedd yn cael ei rannu rhwng cronfeydd;
- Yr arbedion cost posibl.

Yn dilyn cyfarfod y Gweithgor Swyddogion ar 9 Mawrth 2018 roedd dadansoddiad a chasgliadau pellach wedi cael eu dogfennu. Roedd y Cydbwyllgor Llywodraethu wedi cymeradwyo'r adroddiad mewn egwyddor ar 28 Mawrth 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiwygiedig am y ddau strwythur portffolio alpha-uchel ecwiti byd-eang (portffolios 1 a 2) a dadansoddiad costau/buddion llawn yn seiliedig ar yr arwyddion o ddiddordeb yn y ddwy gronfa alpha-uchel ecwiti byd-eang.

Rhoddwyd neges e-bost i'r Pwyllgor oddi wrth yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol a nododd y Pwyllgor gynnwys y neges e-bost hon.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 derbyn adroddiadau'r Is-gronfa Ecwiti Byd-eang a'r daenlen arbedion cost;**

**6.2 bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn buddsoddi yn strwythur Portffolio 1.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**